# CANLLAWIAU PRAWF GWYBODAETH

Mae'r Prawf Gwybodaeth yn cynnwys 5 adran: Saesneg a Mathemateg Sylfaenol, Amodau, Deddfwriaeth, Diogelu a Llwybrau. Isod mae canllawiau ar bob adran.

**Saesneg/Mathemateg Sylfaenol**

Bydd y rhan hon o'r prawf yn cynnwys ymarferion darllen lle bydd gofyn i chi ddarparu'r ateb gorau, cwestiynau darllen a deall, a chwestiynau mathemategol sylfaenol.

Sylwer, os oes gennych unrhyw anawsterau darllen ac ysgrifennu fel dyslecsia, rhowch wybod i aelod o'r Tîm Trwyddedu cyn sefyll y prawf.

**Deddfwriaeth Cerbydau Hacni a Hurio Preifat**

Bydd y rhan hon o'r prawf yn cynnwys amodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n ymwneud â Thrwydded Gyrwyr Cerbydau Hacni/Hurio Preifat, Trwydded Cerbydau Hurio Preifat a Thrwydded Cerbydau Hacni. Bydd angen i chi wybod yr amodau hyn a'r ddeddfwriaeth yn dda er mwyn pasio'r rhan hon o'r prawf.

**Ymwybyddiaeth o Anabledd a Chydraddoldeb**

Bydd y rhan hon yn profi eich ymwybyddiaeth o ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â dyletswyddau cyfreithiol Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat i gynorthwyo teithwyr anabl.

**Diogelu – Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB)**

Bydd y rhan hon yn profi eich ymwybyddiaeth o CRhB a'r hyn y gallwch ei wneud os oes gennych bryder am blentyn

**Lleoliad adeiladau/mannau o ddiddordeb a lleoliad strydoedd**

Bydd y rhan hon yn gofyn i chi nodi lleoliad adeiladau/mannau o ddiddordeb yn ogystal â lleoliad strydoedd.

**Llwybrau**

Bydd y rhan hon o'r prawf yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn i chi ddarparu'r llwybr byrraf a mwyaf uniongyrchol o un lle i'r llall. Er mwyn pasio'r rhan hon o'r prawf, bydd angen i chi fod â gwybodaeth fanwl am ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd angen i chi wybod adeiladau penodol, lleoliad tafarndai, ysbytai, gwestai a gorsafoedd trên.

**Gweler y ddogfen ategol – Cwestiynau Llwybr Prawf Gwybodaeth Tacsis, sy'n rhoi manylion am y cwestiynau llwybr a fydd yn cael eu cynnwys yn y papurau prawf.**

Sylwch y bydd yr adran hon o'r prawf yn cynnwys dau gwestiwn llwybr 'y tu allan i'r ardal' a fydd yn gofyn i chi roi'r llwybr mwyaf uniongyrchol i le y tu allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Sylwch y bydd angen i chi basio 80% o bob adran er mwyn pasio'r prawf.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r weithdrefn brawf newydd, cysylltwch â'r Adran Drwyddedu.